# Atodiad 10

# Trefn Penodi i Swyddogaethau Academaidd

| **Adolygu** | **Dyddiad** | **Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid** | **Dyddiad Adolygu** |
|---|---|---|---|
| 1. | | Cyflwyno trefn ffurfiol | |
| | | | |
| | | | |

**Swyddog â chyfrifoldeb**

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r gweithdrefnau hyn yn amlinellu'r ffordd y dylid penodi i swyddogaethau academaidd. Mae 'swyddogaethau academaidd' yn swyddogaethau ychwanegol at brif swydd aelod staff, a rhoddir tâl am eu cyflawni.

Mae'r holl staff sy'n ymwneud â recriwtio a dewis staff i'r swyddogaethau hyn yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn glynu wrth y gweithdrefnau hyn, fel bod ymgeiswyr yn cael eu trin yn deg a phenderfyniadau'n cael eu gwneud yn wrthrychol ac yn unol ag ymrwymiad y brifysgol i gydraddoldeb ac yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth gyfredol.

## 2. Cwmpas

Mae'r gweithdrefnau hyn yn amlinellu'r camau i'w dilyn ar gyfer recriwtio effeithiol i swyddogaethau academaidd yn y Brifysgol*.* Mae'r gweithdrefnau hyn yn dilyn egwyddorion y Polisi Recriwtio a Dewis.

Brifysgol yn cydnabod y swyddogaethau canlynol:

| | |
|---|---|
| Lefel Prifysgol: | Dirprwy Is-ganghellor<br>Is-ganghellor Cynorthwyol |
| Lefel Coleg: | Deon y Coleg<br>Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu<br>Cyfarwyddwr Ymchwil<br>Cyfarwyddwr Effaith a Chyfranogiad<br>Cyfarwyddwr Ymchwil Astudiaethau Ôl-radd<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu (Cyfrwng Cymraeg) |
| Lefel Ysgol: | Pennaeth yr Ysgol<br>Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu<br>Cyfarwyddwr Ymchwil<br>Cyfarwyddwr Effaith a Chyfranogiad<br>Uwch Diwtor |

## 3. Cadarnhau swydd wag

Dylai'r broses hon ddechrau mewn da bryd - 9 mis ymlaen llaw fel rheol - cyn y bydd y swyddogaeth ar gael

## 4. Datblygu'r Disgrifiad Swydd a Gofynion Personol

Bydd cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer penodi Is-ganghellor Cynorthwyol fel a ganlyn:

- Dirprwy Is-ganghellor
- Un aelod arall o'r Pwyllgor Gweithredu
- Bydd aelod Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Ysgrifennydd.

Bydd cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer penodi Deon Coleg fel a ganlyn:

- Aelod o'r Pwyllgor Gweithredu (cadeirydd)
- Un aelod arall o'r Pwyllgor Gweithredu
- Deon Coleg arall neu Bennaeth Ysgol arall
- Bydd aelod Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Ysgrifennydd.

Bydd cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer holl benodiadau eraill ar lefel Coleg fel a ganlyn:

- Deon y Coleg
- Y Dirprwy Is-ganghellor perthnasol (h.y. Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) ar gyfer Swyddogaeth Cyfarwyddwr Ymchwil)
- Bydd aelod Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Ysgrifennydd.

Bydd cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer penodi Pennaeth Ysgol fel a ganlyn:

- Aelod o'r Pwyllgor Gweithredu (cadeirydd)
- Un aelod arall o'r Pwyllgor Gweithredu
- Deon y Coleg
- Deon Coleg arall neu Bennaeth Ysgol arall
- Bydd aelod Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Ysgrifennydd.
- Cynrychiolydd enwebedig o Undeb y Myfyrwyr

Bydd cyfansoddiad y panel cyfweld ar gyfer holl benodiadau eraill ar lefel Ysgol fel a ganlyn:

- Pennaeth yr Ysgol
- Deon y Coleg
- Y Cyfarwyddwr perthnasol ar lefel Coleg (h.y. Cyfarwyddwr Ymchwil y Coleg ar gyfer swyddogaeth Cyfarwyddwr Ymchwil Ysgol).
- Bydd aelod Adran Adnoddau Dynol yn gweithredu fel Ysgrifennydd.

Sylwer bod yn rhaid i o leiaf un aelod staff (yn ychwanegol at y cynrychiolydd AD) ar banel cyfweld fod wedi dilyn hyfforddiant Recriwtio a Dewis. Hefyd, lle bo'n bosib, rhaid i'r Cadeirydd sicrhau amrywiaeth o gynrychiolaeth ar banelau e.e.

gender ymysg y rhai sy'n rhan o'r broses.  Golyga hyn bod rhaid i o leiaf un aelod o unrhyw banel cyfweld